Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Papur briffio polisi
Gorffennaf 2021


# Pandemig y coronafeirws ac ymarfer mewn gofal cymdeithasol plant

Mae pandemig y coronafeirws wedi amharu'n ddifrifol ar y modd y mae gwasanaethau cymdeithasol plant yn gweithredu a'r ffordd y mae gweithwyr cymdeithasol yn gweithio gyda theuluoedd, ond nid yw'n hysbys o hyd pa effaith y mae hyn yn ei chael ar allu gweithwyr cymdeithasol i gadw plant agored i niwed yn ddiogel.

Mae'r papur briffio hwn yn ymwneud â'r modd y mae'r pandemig wedi effeithio ar arferion gofal cymdeithasol plant yng Nghymru. Deilliodd o ddarn mwy o waith a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, ac a oedd yn arolygu arweinwyr a gweithwyr cymdeithasol ym maes gofal cymdeithasol plant er mwyn deall pam y mae yna amrywiaeth yng nghyfraddau'r plant sy'n cael gofal ymhlith awdurdodau lleol (Forrester *et al.,* 2021). Cynhaliwyd yr ymchwil ar ffurf cydweithrediad rhwng Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a'r Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol i Blant (CASCADE) ym Mhrifysgol Caerdydd.

Gofynnwyd pum cwestiwn o raddfa Likert i'r ymatebwyr (n=792)[1] ac un cwestiwn penagored am y modd y mae'r pandemig wedi effeithio ar eu harfer, a hynny gyda ffocws penodol ar yr effaith dybiedig ar gyfraddau gofal, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny. Adroddir ar y ddwy set o ddata yma, gydag ymatebion i'r cwestiwn caeedig yn cael eu marcio fel y cyfryw, a phob ymateb arall yn cyfeirio at y cwestiwn agored.

**Ffigur 1. Cyfran yr ymatebion i'r cwestiwn "O'i gymharu â chyn y pandemig, rwyf i/mae gweithwyr cymdeithasol yn fy awdurdod lleol* bellach yn teimlo bod ... "**




*Gofynnwyd i arweinwyr beth a fyddai gweithwyr cymdeithasol yn eu hawdurdod lleol yn ei wneud, yn hytrach na beth

[1] Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys ymatebwyr a nododd fod eu rôl yn "gweinyddol, arall".

Daeth tair thema allweddol i'r amlwg o'r ymatebion: mwy o bwysau ar deuluoedd, heriau wrth ymateb i hyn, a phroblemau i blant mewn gofal.

## Pwysau cynyddol ar deuluoedd

Roedd tri chwarter (76%, n= 506) yr ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf ynghylch y cwestiwn caeedig bod y pandemig wedi cynyddu'r pwysau ar deuluoedd, sydd, yn ei dro, wedi cynyddu'r risg y bydd plant yn dod i ofal (Ffig.1). Tynnodd yr ymatebwyr sylw at heriau amrywiol a oedd yn arwain at fwy o bwysau ar deuluoedd; roedd y rhain yn ymwneud â phroblemau ariannol (megis diweithdra) (n=50), rhianta ynysig (n=74), diffyg mynediad at wasanaethau cyffredinol (n=72), anawsterau iechyd meddwl a llesiant (n=44), a phroblemau teuluol a oedd eisoes yn bodoli yn dwysáu (n=78).

### Effaith rhianta ynysig

Roedd effaith rhianta ynysig ac mewn amgylchiadau anodd yn eglur. Cyfeiriodd yr ymatebwyr at ddiffyg seibiannau yn dylanwadu ar alluoedd rhieni a gofalwyr i gadw plant gartref. Dywedodd rhai fod y cynnydd yn yr amser a dreuliai rhieni gartref ac ar eu pen eu hunain wedi rhoi straen ar berthnasoedd, gan gyfrannu at chwalu teuluoedd mewn rhai achosion. Soniodd yr ymatebwyr yn gyffredinol am achosion o chwalu perthnasoedd, yn ogystal ag am wrthdaro rhwng pobl ifanc yn eu harddegau a rhieni. Cyfeiriodd sawl ymatebydd at densiynau rhwng pobl ifanc yn eu harddegau a'u rhieni/gofalwyr o ganlyniad i dorri canllawiau'r cyfyngiadau symud a chymryd risgiau oherwydd diflastod a rhwystredigaeth:

> "Cawsom enghreifftiau o bobl ifanc yn ymosod ar rieni ac aelodau eraill o'r uned deuluol, ymddygiad a arweiniodd at roi pobl ifanc mewn gofal oherwydd y straen ar y teulu a'r anallu i ymdopi."

### Diffyg mynediad at wasanaethau cyffredinol

Tynnodd llawer o'r cyfranogwyr sylw at effaith y gostyngiad mewn gwasanaethau cyffredinol, megis bydwreigiaeth, ymweliadau ymwelwyr iechyd, a chau ysgolion. Roedd hyn yn gwneud plant agored i niwed yn llai gweladwy, ac yn golygu bod y gwasanaethau cymdeithasol yn llai abl i fonitro plant a chanfod pryderon am eu lles. Erbyn i bryderon gael eu nodi, roeddent yn fwy tebygol o fod wedi dwysáu y tu hwnt i bwynt lle y gallai'r plant aros gartref. Er y gwnaed ymdrechion i gadw mewn cysylltiad â phlant agored i niwed, nododd un ymatebydd fod y tarfu ar berthnasoedd y plant â gweithwyr proffesiynol yr oeddent yn ymddiried ynddynt yn ei gwneud yn anos canfod camdriniaeth.

### Iechyd meddwl a llesiant

Roedd effaith y pandemig ar iechyd meddwl yn bryder allweddol. Disgrifiodd yr ymatebwyr lesiant meddyliol dirywiol mewn teuluoedd o ganlyniad i gael eu hynysu oddi wrth ffrindiau a theulu estynedig. Soniwyd am iechyd meddwl rhieni yn gymharol aml, ond roedd llai o sôn am broblemau iechyd meddwl plant, er bod rhai'n disgrifio effaith yr amharu ar arferion rheolaidd y teulu a bod oddi wrth eu ffrindiau ar y plant. Mae'n werth nodi'r rhyngweithio rhwng llesiant meddwl plant a rhieni. Er enghraifft, credid bod problemau ymddygiadol a oedd yn dirywio ymhlith pobl ifanc yn eu harddegau wedi arwain at effaith ganlyniadol ar iechyd meddwl y rhieni.

### Problemau teuluol mewn bodolaeth yn dwysáu

Teimlid bod teuluoedd yn brwydro yn erbyn problemau a oedd eisoes yn bodoli ac a oedd wedi cael eu dwysáu gan y pandemig. Disgrifid y rhain yn gyffredinol yn straenachoswyr newydd, a oedd yn dwysáu sefyllfa a oedd eisoes yn ansefydlog gartref. Disgrifiwyd y dwysâd hwn yn nhermau cynnydd canfyddedig yn nifer yr atgyfeiriadau.

## Yr heriau o ran ymateb

Tynnodd yr ymatebwyr sylw at yr heriau o ran ymateb i'r pwysau cynyddol a roddid ar deuluoedd. Ymhlith yr heriau yr oedd adnabod teuluoedd a oedd yn wynebu risg, gweithio gyda theuluoedd (n=125) a darparu gwasanaethau cymorth (n=93).

### Adnabod teuluoedd a oedd yn wynebu risg

Roedd dros hanner yr ymatebwyr (54%, n=362) yn llai hyderus bod y gwasanaethau'n ymwybodol o gamdriniaeth bellach, o gymharu â'r cyfnod cyn y pandemig. Mewn ymateb i'r cwestiwn caeedig, roedd bron i hanner (46%, n=305) yr ymatebwyr yn teimlo'n llai hyderus ynghylch adnabod teuluoedd a oedd yn wynebu risg. Fodd bynnag, os oedd yr ymatebwyr yn pryderu am deulu, roedd y mwyafrif (68%, n=456) yn teimlo'r un mor abl ag erioed i gymryd camau diogelu (Ffig.1). Canfu profion T wahaniaethau sylweddol yn yr ymatebion cymedrig rhwng yr arweinwyr a'r gweithwyr. Roedd yr arweinwyr yn fwy hyderus na'r gweithwyr fod risgiau'n cael eu nodi ac yr ymatebid iddynt,[2] a bod y gweithwyr yr un mor abl i gymryd camau diogelu pan oeddent yn pryderu am deulu.[3] Roedd yr arweinwyr yn llai tebygol na'r gweithwyr o gredu bod y gwasanaethau'n llai ymwybodol o gamdriniaeth na chyn y pandemig.[4]

### Gweithio gyda theuluoedd

Tynnodd llawer o'r ymatebwyr sylw at effaith cyfyngiadau'r pandemig ar allu gweithwyr cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau o safon uchel i deuluoedd. Roeddent wedi tynnu sylw at ddau faes allweddol: llai o gyfle i wneud "gwaith uniongyrchol" gyda theuluoedd, ac effaith negyddol ar brosesau asesu a gwneud penderfyniadau.

Arweiniodd yr heriau hyn at oedi o ran gweithio gyda theuluoedd, ac ymdeimlad bod y cynnydd yn arafach. Amlinellodd ymatebwyr eraill yr anawsterau o ddefnyddio dulliau rhithwir i asesu risgiau, y gallu i rianta, a newid dros amser. Roedd hyn yn golygu bod y gweithwyr cymdeithasol yn teimlo eu bod yn gweithredu gyda llai o wybodaeth nag y byddent o dan amgylchiadau arferol. Roedd rhai o'r farn bod hyn wedi arwain at gynnydd mewn dulliau gwrth risg:

> "Llai o allu i asesu teuluoedd yn iawn a threulio amser gyda nhw, sy'n golygu, pan fo yna ddigwyddiad, ein bod yn fwy tebygol o wneud penderfyniad gwrth risg."

### Darparu gwasanaethau cymorth

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn pryderu bod gostyngiad yn y gwasanaethau cymorth sydd ar gael fel arfer i deuluoedd yn arwain at "ymyriad hwyr". Mae hyn yn golygu nad yw risgiau'n cael eu nodi'n ddigon cynnar i weithwyr proffesiynol weithio gyda theuluoedd a dad-ddwysáu argyfyngau cyn i sefyllfaoedd fynd mor anniogel fel bod plant yn cael eu cymryd i ofal.

## Problemau i blant mewn gofal

Yn ogystal â'r cynnydd canfyddedig yn nifer y plant sy'n mynd i ofal oherwydd y pwysau a

[2] (t(667)= 2.3, p= .020)
[3] (t(667)= 3.0, p= .002)
[4] (t(667)= 3.4, p= .001)

amlinellir uchod, roedd yr ymatebion hefyd yn dynodi eu teimlad fod llai o blant yn debygol o fod wedi gadael gofal yn ystod y pandemig, ac y gallai eu profiad tra oeddent mewn gofal fod wedi newid.

Disgrifiodd yr ymatebwyr oedi mewn perthynas â sefydlogrwydd, a oedd yn cynnwys gohirio cynlluniau ar gyfer ailuno ac adsefydlu (n=38) ac o ran amserlenni llysoedd (n=18), a llai o gyswllt rhwng plant a'u teuluoedd biolegol (n=75), neu amhariad ar y cyswllt hwnnw, ynghyd â mwy o ansefydlogrwydd o ran lleoliadau (n=13), a phrinder lleoliadau (n=29).

**Oedi o ran ailuno ac achosion y llysoedd**

Canfuwyd bod cynlluniau i ailuno plant â'u teuluoedd biolegol, a/neu i ddirymu gorchmynion gofal, wedi cael eu gohirio neu eu dad-flaenoriaethu. Adroddwyd hefyd am beth oedi o ran symud plant yn eu blaen i ddewisiadau amgen parhaol. Roedd y rhesymau dros hyn yn cynnwys y canlynol: cyfyngiadau ar ymweld â'r cartref yn atal gwaith gyda'r rhieni, a chyfyngiadau ar deuluoedd o ran cymysgu ag aelwydydd eraill. Soniodd rhai ymatebwyr am oedi yn achosion y llysoedd, a briodolwyd i'r ffaith bod y llysoedd yn blaenoriaethu achosion risg uwch, y diffyg amser a oedd ar gael yn y llysoedd, gwarcheidwaid Cafcass ddim yn cynnal ymweliadau, a cheisiadau am ryddhau ddim yn cael eu blaenoriaethu.

**Tarfu ar gysylltiadau â theuluoedd**

Un o brif effeithiau'r pandemig yn achos plant mewn gofal oedd y gohirio neu'r tarfu mewn perthynas â'u cyswllt â'u teuluoedd. Disgrifiodd yr ymatebwyr gyfyngiadau cyswllt a gynhelid trwy alwad fideo yn hytrach nag wyneb yn wyneb.

Awgrymodd sawl ymatebydd fod y gostyngiad mewn cyswllt wedi cael effaith negyddol ar iechyd meddwl a llesiant plant a rhieni, a nododd un ymatebydd fod plentyn wedi dweud wrtho, *"Mae Mam yn byw yn y ffôn 'nawr".*

**Materion sefydlogrwydd a llai o leoliadau**

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod cyfraddau'r methiant mewn lleoliadau wedi codi, a bod yna hefyd fwy o ansefydlogrwydd mewn lleoliadau a oedd yn parhau. Roedd y rhesymau dros hyn yn cynnwys y ffaith bod y pwysau cynyddol ar deuluoedd a amlinellir uchod hefyd yn effeithio ar ofalwyr; ynghyd â'r ffaith bod gofalwyr maeth a darparwyr lleoliadau preswyl yn methu ymdopi â phroblemau ymddygiad ac iechyd meddwl pobl ifanc yn eu harddegau, problemau y credid eu bod wedi gwaethygu ers y pandemig.

Tynnodd ymatebwyr sylw at brinder cyffredinol o leoliadau a oedd wedi dwysáu oherwydd y pandemig. Soniodd rhai o'r ymatebwyr yn benodol am brinder gofalwyr maeth, a hynny am fod rhai gofalwyr maeth wedi gorfod eu gwarchod eu hunain neu hunanynysu oherwydd pryderon iechyd. Nododd ymatebwyr fod prinder lleoliadau wedi arwain at ddiffyg dewis o leoliadau, a bod lleoliadau llai priodol yn cael eu defnyddio.

Mae'n werth nodi nad yw ystadegau diweddar a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn cefnogi'r awgrymiadau hyn. Yn 2020, a chan gymharu â'r pedair blynedd flaenorol, gwelwyd ychydig o ostyngiad yn nifer y plant â thri lleoliad neu ragor mewn blwyddyn (Llywodraeth Cymru, 2021).

## Myfyrdodau

Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod gweithwyr gofal cymdeithasol plant yn gwneud eu gorau i addasu i amgylchiadau anodd iawn, a gweithio ynddynt. Er hynny, mae'r pandemig wedi cael effaith fawr ar arferion gofal cymdeithasol plant yng Nghymru. Mae gan hyn oblygiadau i deuluoedd, plant a'r gweithlu gofal cymdeithasol plant. Yn benodol:

- Credir bod teuluoedd, yn enwedig y rhai a ystyrid eisoes yn rhai agored i niwed, o dan bwysau cynyddol o ganlyniad i'r pandemig.
- Mae sail i amau bod yna ôl-groniad o broblemau, ac y bydd cynnydd yn y galw am wasanaethau cymdeithasol plant yn ystod y misoedd nesaf. Gallai hyn arwain at gynnydd yn y cyfraddau plant mewn gofal yn y tymor hwy.
- Wrth i ni symud o ddelio â her ddifrifol iechyd y cyhoedd a'r cyfyngiadau symud yng Nghymru, bydd gwasanaethau cymdeithasol plant yn delio â'r niwed cymdeithasol tymor hwy a achoswyd gan y pandemig.

## Cyfeirnodau


Forrester, D., Wood, S., Waits, C., Jones, R., Bristow, D., a Taylor-Collins, E. (2021). **Gwasanaethau cymdeithasol a chyfraddau gofal plant yng Nghymru: Arolwg o'r sector** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Llywodraeth Cymru (2021a). **Ceisiadau ystadegol *ad-hoc*: 15 i 26 Chwefror 2021.** Cyrchwyd o: https://llyw.cymru/ceisiadau-ystadegol-ad-hoc-15-i-26-chwefror-2021


## Rhagor o wybodaeth

Forrester, D., Wood, S., Waits, C., Jones, R., Bristow, D., a Taylor-Collins, E. (2021). Gwasanaethau cymdeithasol a chyfraddau gofal plant yng Nghymru: Arolwg o'r sector Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

## Ynglŷn â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a CASCADE

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn cydweithio ag arbenigwyr polisi blaenllaw i roi tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, sy'n eu helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisi.

Mae'r Ganolfan, sy'n cael ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, yn rhan o Brifysgol Caerdydd ac yn aelod o What Works Network y Deyrnas Unedig.

Cenhadaeth CASCADE yw gwella llesiant, diogelwch a hawliau plant a'u teuluoedd.

Maent yn gwneud hyn trwy lunio gwybodaeth newydd am ofal cymdeithasol plant, yn ogystal â rhannu gwybodaeth newydd ac sy'n bodoli mewn ffyrdd sy'n helpu gwasanaethau.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Emma Taylor-Collins**

+44 (0)29 2087 5345

emma.taylor-collins@wcpp.org.uk

**Wales Centre for Public Policy**

Cardiff University, 10/12 Museum Place, Cardiff CF10 3BG

www.wcpp.org.uk

029 2087 5345

info@wcpp.org.uk

@WCfPP

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd

UKRI Economic and Social Research Council

Llywodraeth Cymru / Welsh Government